Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Ni fydd Archwilio Cymru yn trafod dyddiadau amgen gyda chynghorau.

## Hysbysiad archwilio

Hysbysiad o benodi o'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

[Cyngor Bro Cerrig y Drudion [redacted]

Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025

1. Dyddiad cyhoeddi 10/07/25
2. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb gyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â nhw am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Carol Humphreys

Tai Draw

Cerrig y Drudion

rhwng oriau 10.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener

yn dechrau ar 01 Gorffennaf 2025

ac yn gorffen ar 28 Gorffennaf 2025

3. O 15 Medi 2025, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.
   - yr hawl i fynychu gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.